COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD– CYF. DLI 044

Amseru: Arferol

Teitl: Cod Moeseg

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Llywodraethu

Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Coleg Plismona wedi sefydlu Cod Moeseg – cod ymarfer ar gyfer egwyddorion a safonau ymddygiad proffesiynol ar gyfer y proffesiwn plismona yng Nghymru a Lloegr.

Canllaw ysgrifenedig yw'r Cod Moeseg i'r egwyddorion y disgwylir i bob aelod o broffesiwn plismona Cymru a Lloegr eu cynnal a'r safonau ymddygiad y disgwylir iddynt fodloni. Hwn yw'r tro cyntaf y mae'r safonau ymddygiad a'r egwyddorion hyn wedi'u gosod mewn dogfen unigol.

Bwriedir i'r Cod Moeseg gael ei ddefnyddio'n ddyddiol fel canllaw ar gyfer ymddygiad a gwneud penderfyniadau. Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd fabwysiadu'r Cod ar gyfer eu staff a'r rhai sy'n gweithio i'r Comisiynydd.

Er bod SCHTH Dyfed-Powys wedi glynu wrth egwyddorion y Cod erioed, nid yw'r Comisiynydd wedi mabwysiadu'r Cod yn ffurfiol o'r blaen.

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo SCHTh Dyfed-Powys yn mabwysiadu Cod Moeseg y Coleg Plismona.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 9/8/2017